CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD gan y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
Ar
Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2006. Fe'i trafodwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth a gytunwyd gan y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2003, pan fydd yr Aelodau'n hysbysu ymlaen llaw unrhyw gwestiynau neu ddiwygiadau y dymunant eu gwneud i'r Gorchymyn.

Ni chynigiodd yr Aelodau unrhyw ddiwygio.

Codwyd un pwynt o esboniad gan Jenny Randerson AC:

"A yw'r Gweinidog wedi cyfrifo costau codi'r Ffiniau Cyfalaf a'r Lwfans Treuliau Personol ymhellach nag yr arfaethir ar hyn o bryd ac os felly a fydd yn sicrhau bod y cyfrifo hwnnw ar gael?"

Dywedodd y Gweinidog y byddai pob cynnydd ychwanegol o £1,000 i'r ffin gyfalaf uchaf yn golygu cost o £0.5 miliwn i'r awdurdodau lleol. Ar y lefel isaf, byddai'r un codiad yn costio £0.2miliwn.

Dywedodd y byddai pob cynnydd o 10c yn y Lwfans Treuliau Personol yn costio £100,000 i'r awdurdodau lleol.

Byddai'r costau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y cynnydd i'r asesiad o wariant safonol yr awdurdodau lleol.

Wrth ateb cwestiwn gan Helen Mary Jones, dywedodd y Gweinidog nad oedd y nifer o gartrefi a werthid bob blwyddyn i dalu am ofal personol yn hysbys yn ôl pob sôn. Dywedodd nad gwerthu'r cartref oedd yr unig ddewis, dewis arall fyddai codi tâl yn erbyn yr eiddo.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau fel y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd